



Datganiad o Ddisgwyliad CAFCASS Cymru

Rhaglen Trefniadau Plentyn

Penodiadau Rheol 16.4 mewn Achosion Llys Preifat

Pan fydd y llys yn ystyried gwneud plentyn yn barti yn yr achos yn ôl Rheol 16.4 o Reolau Trefniadaeth Teulu 2010, mae'r penodiad hwn yn caniatáu i blentyn fod yn 'barti' yn yr achos a chael cynrychiolaeth gyfreithiol yn ei rinwedd ei hun.

Penderfyniad yn gyfan i'r llys yn unig bob amser fydd gwneud y plentyn yn barti, penderfyniad a wneir yn sgîl ffeithiau ac amgylchiadau'r achos penodol. Gall y llys ystyried gwneud plentyn yn barti yn yr achos os yw'n fodlon bod yr achos yn bodloni un neu ragor o'r meini prawf canlynol:

- mae Cynghorydd Llys Teulu/Gweithiwr Cymdeithasol Llys Teulu (CLLT/GCLLT) wedi argymhell y dylai'r plentyn fod yn barti;
- mae'r anghydfod rhwng y partïon sy'n oedolion yn golygu nad yw lles y plentyn yn cael ei ddiwallu;
- lle mae anghydfod anhydrin neu lle ceir gelyniaeth anghymodlon gyswllt neu lle gall y plentyn fod yn dioddef niwed sy'n gysylltiedig â'r anghydfod cyswllt;
- lle na all barn a dymuniadau'r plentyn gael eu bodloni'n ddigonol gan Adroddiad Adran 7 i'r llys;
- lle mae plentyn hŷn yn gwrthwynebu camau gweithredu arfaethedig;
- lle mae materion cymhleth sy'n ei gwneud yn angenrheidiol cynrychioli'r plentyn ar wahân;
- lle mae elfennau rhyngwladol i'r achos a allai olygu ei bod yn angenrheidiol cynnal trafodaethau ag awdurdodau tramor neu lys tramor;
- lle ceir honiadau difrifol o gam-drin i'r plentyn a/neu honiadau o drais domestig;
- lle mae'r achos yn ymwneud â mwy nag un plentyn ac mae lles y plant yn gwrthdaro â'i gilydd neu mae un plentyn o dan anfantais benodol;
- lle mae anghytuno ynghylch profi gwyddonol.





Penodi Gwarcheidwad Plant

Pan fydd y llys yn ystyried penodi Gwarcheidwad Plant gan Cafcass Cymru, dylai yn gyntaf sicrhau bod ymholiadau wedi'u gwneud â'r rheolwr Cafcass Cymru priodol yn unol â pharagraff 7.4, Rhan 4 o'r Cyfarwyddyd Ymarfer 16A. Dylai hyn naill ai fod yn ysgrifenedig cyn y gwrandawriad neu drwy drafodaeth achos gyda'r rheolwr Cafcass Cymru perthnasol drwy'r Protocol Llinell Gymorth.

Dylai'r llys ymgynghori â Cafcass Cymru, i ystyried unrhyw gyngor mewn cysylltiad â'r darpar benodiad a'r amserlen dan sylw.

- I gynorthwyo â'r gofyniad ymgynghori hwn, bydd Cafcass Cymru yn sicrhau bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a'r farnwriaeth yn cael un rhif ffôn ar gyfer pob ardal fel a ganlyn:

Gwent – 0300 025 2800

De Cymru – 0300 062 8877

De-orllewin Cymru – 0300 025 5600

**Canolbarth a Gorllewin Cymru –
0300 025 3370**

Gogledd Cymru – 0300 062 5821

- Wrth ystyried penodi bydd y llys yn ystyried y galwadau ar adnoddau Cafcass Cymru yn sgîl penodiad o'r fath.
- Dylai'r llys ei gwneud yn glir ar wyneb unrhyw orchymyn ddiben y penodiad ac amserlen unrhyw waith i'w gynnal gan y CLLT/GCLLT.

Os yw'r llys yn ystyried gwneud penodiad 16.4 dylai nodi'r canlynol mewn perthynas â'r hyn y gall ac na all Cafcass Cymru ei gyflwyno fel rhan o'i rôl:

Y CLLT/GCLLT:

- Cyfarwyddo cyfreithiwr sy'n arbenigo mewn Cyfraith Teulu ac sydd ar y Panel Plant i weithredu ar ran y plentyn.
- Cyfarfod â'r plentyn a'r partion.
- Holi'r plentyn i gael gwybod ei ddymuniadau a'i deimladau (os yw'n addas i'r oedran)
- Cynghori'r llys am unrhyw waith, gan gynnwys gwasanaethau ychwanegol fel barn arbenigol, y maent yn credu eu bod yn angenrheidiol i gynorthwyo'r llys.
- Ysgrifennu (os bydd Gorchymyn i wneud hynny), adroddiad ar gyfer y llys a mynd i wrandawiadau llys priodol.
- Darparu cyngor arbenigol i'r llys ac yn gwneud argymhellion o ran yr hyn a ystyrir sydd er lles pennaf y plentyn.

Mae Cafcass Cymru yn darparu gwasanaeth gweithredol o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ni ddylid disgwyl y bydd CLLT/GCLLT yn darparu gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith arferol.

Nid yw Cafcass Cymru yn "goruchwyllo" cyswllt at ddibenion eu hymchwiliadau.

